Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
**Fire and Rescue Service**

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

# Adolygiad Blynyddol o'r **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023 - 2024**



**DEWRDER | WEITHREDU, TOSTURI | OFALU**

# Cyflwyniad

Dyma adolygiad 2022-2023 o Gynllun Cydraddoldeb Strategol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. (Mae'r Cynllun ar y wefan, dolenni isod)

SCAN ME

Saesneg:
bit.ly/StrategicEqualityPlan2020-2025

SGANIWCH F

Cymraeg:
bit.ly/CynllunCydraddoldebStrategol2020-2025

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg o'r gwaith a wnaed i gyflawni'r uchelgeisiau a amlinellwyd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023-2026.

# Trosolwg

Mae ein hamcanion cydraddoldeb wedi'u rhannu'n dri maes allweddol sef **'Gwasanaethau ac Isadeiledd'**, **'Diwylliant'** a **'Phobl'.** Mae gan bob maes allweddol ddau amcan cydraddoldeb penodol yr ydym yn gweithio tuag atynt. O fewn yr amcanion hyn rydym hefyd yn amlinellu'r camau gweithredu y byddem yn eu cymryd i gyflawni'r uchelgeisiau hyn.

Mae'r tudalennau canlynol yn manylu ar ein hymrwymiad i'n hamcanion cydraddoldeb a'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a wnaed ac a gyflawnwyd yn erbyn yr amcanion yn ystod y cyfnod o'r 1af o Ebrill 2023 i'r 31ain o Fawrth 2024.

# Amcanion

**Amcan 1:** Sicrhau bod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu cynnwys a'u bod ar flaen y gad o ran cynllunio a darparu gwasanaethau, gan sicrhau mynediad cyfartal i bawb.

**Amcan 2:** Alinio seilwaith ein Gwasanaeth i'n galluogi i fodloni gofynion bod yn gyflogwr o safon fyd-eang.

**Amcan 3:** Gwreiddio diwylliant o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws GTADC.

**Amcan 4:** Sicrhau bod pawb yn arwain drwy esiampl, gan fodelu rôl a hyrwyddo CAC ar draws GTADC. Gwella ein seilwaith i gefnogi cyflogwr cynhwysol yn yr 21ain Ganrif yn well.

**Amcan 5:** Cynyddu amrywiaeth ein gweithlu ar bob lefel ar draws y Gwasanaeth.

**Amcan 6:** Sicrhau bod yr holl staff yn cael eu cefnogi gyda'r polisïau, offer a phrosesau cywir i sicrhau tegwch yn y gweithle.



# Ein Gwasanaethau a'n Seilwaith

**Amcan 1:** Sicrhau bod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu cynnwys a'u bod ar flaen y gad o ran cynllunio a darparu gwasanaethau, gan sicrhau mynediad cyfartal i bawb.

**Fe wnawn ni hyn drwy:**

- Sicrhau ffyrdd newydd o weithio i wella darpariaeth gwasanaeth
- Meithrin perthnasoedd gyda grwpiau allanol sy'n ceisio mewnbwn ar sut y gallwn eu gwasanaethu'n well
- Gweithio gydag Awdurdodau Lleol, Elusennau, Byrddau Iechyd a sefydliadau eraill i gyfuno adnoddau i leihau 'blinder ymgynghori'
- Gofyn i'n cymunedau am adborth ar beth a sut rydym yn ei wneud. Defnyddio data i sicrhau ein bod yn cyrraedd pob grŵp trwy fynd â'n gwasanaethau atyn nhw
- Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r sawl yr ydym yn eu gwasanaethu i roi gwybod iddynt beth yr ydym yn ei wneud a pham
- Darparu prosesau Asesu Integredig cadarn lle bydd yr holl gamau gweithredu yn cael eu hasesu i sicrhau eu bod yn addas i bawb
- Casglu a dadansoddi data i sicrhau ein bod yn gynhwysol ar draws pob grŵp
- Cysylltu adborth a safbwyntiau ein cymunedau, rhanddeiliaid a gweithwyr trwy gydol trafodaethau'r Uwch Dîm Rheoli

### Beth rydym wedi gweithio arno yn ystod 2023-2024:

- Ail-wampiwyd llawer o'n ffurflenni i'r cyhoedd i allu coladu data demograffig cywir wrth ryngweithio â'r gymuned i sicrhau ein bod yn casglu a dadansoddi gwybodaeth yn effeithiol
- Fe wnaethom wreiddio ein ffurflen Asesu Effaith Cydraddoldeb newydd a hyrwyddo'r math newydd o asesu. Mae'r ffurflen hon yn cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig yn ogystal â chaniatáu mwy o fanylion wrth asesu effaith ein gwaith
- Darparwyd hyfforddiant Asesu Effaith Cydraddoldeb (AEC) wyneb yn wyneb i dros 140 o unigolion i sicrhau bod cydweithwyr yn cael eu cefnogi a'u bod yn deall sut i gynnal asesiadau effeithiol. Mae ansawdd yr AEC a gwblhawyd wedi gwella yn ystod y cyfnod ac mae hyn, yn ei thro, wedi helpu i wella cynhwysiant o fewn ein Gwasanaeth
- Cynhaliwyd dau 'Ddiwrnod 999.' Roedd y cyntaf o'r rhain ym Mehefin 2023 ym Mharc Bryn Bach a'r ail ym Mae Caerdydd ym Medi 2023. Dyma gyfleoedd perffaith i gyfathrebu ac ymgysylltu â'r sawl yr ydym yn eu gwasanaethu i ddweud wrthynt beth yr ydym yn ei wneud a pham
- Mynychom ddigwyddiadau ym Mosg Dar-Ul-Isra yng Nghaerdydd er mwyn i'n harbenigwyr cynhwysiant dderbyn hyfforddiant a gwneud cysylltiadau â chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Fe wnaethom barhau i ymgysylltu â'n Partneriaid Sector Tân Cymru Gyfan i rannu addysg, adnoddau a gwybodaeth am fentrau a chynnydd CAC

**Amcan 2:** Alinio seilwaith ein Gwasanaeth i'n galluogi i fodloni gofynion bod yn gyflogwr o safon fyd-eang.

**Fe wnawn ni hyn drwy:**

- Cydweithio ag eraill i rannu addysg ac adnoddau
- Nodi ac ymwreiddio atebion creadigol a thechnoleg sy'n darparu gwasanaeth Tân ac Achub sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain a hefyd yn canolbwyntio ar gynhwysiant a thegwch
- Sicrhau bod ein gweithwyr yn cael hyfforddiant a'r adnoddau perthnasol i'w cefnogi wrth iddynt ymgysylltu â busnesau, rhanddeiliaid a chymunedau Cymreig amrywiol
- Parhau â'n rhaglen datblygu cyfalaf i greu gweithleoedd a chyfleusterau hygyrch a chynhwysol
- Sicrhau bod ein cyflenwyr hefyd yn bodloni ein gwerthoedd a'n hymrwymiad i CAC, y cyflog byw gwirioneddol a chaethwasiaeth fodern
- Parhau i hyrwyddo ac ymwreiddio'r Gymraeg yn fewnol ac yn allanol i'r Gwasanaeth
- Darparu prosesau Asesu Integredig cadarn lle caiff ein seilwaith ei asesu i sicrhau ei fod yn addas i bawb

## Beth rydym wedi gweithio arno yn ystod 2023-2024:

- Rhwng Ebrill a Hydref 2023, gwnaed gwaith ailddatblygu yng Ngorsaf Dân y Rhath a oedd yn cynnwys creu ramp i sicrhau bod yr ystafell gymunedol yn gwbl hygyrch i bob grŵp. Uwchraddiwyd ein darpariaeth noswylio i ddarparu ystafelloedd cysgu unigol i'n gweithwyr er mwyn sicrhau bod pawb yn teimlo'n gyfforddus yn y gweithle. Yn yr un modd, cyflawnwyd gwaith ar Orsaf yr Eglwys Newydd i wella hygyrchedd ystafelloedd cymunedol, darparu ystafelloedd cysgu unigol a chyfleusterau cawod
- Gweithiodd ein tîm Rheoli Risg Gweithredol ar wisg GTADC gan sicrhau ei bod yn addas ar gyfer yr holl staff o ran maint a bod yn gyfeillgar i'r bobl sy'n profi'r menopos
- Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi sicrhau bod ein holl ysgolion gweithredol yn briodol i'w defnyddio gan ein holl staff a phan fyddant ar y peiriant, eu bod o fewn cyrraedd yr holl weithwyr
- Rydym wedi parhau yn aelodau gweithredol o Fwrdd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i rannu addysg ac adnoddau gyda chyrff cyhoeddus eraill ac i olrhain ein cynnydd ein hunain yn erbyn ein partneriaid
- Parhawyd i wreiddio'r Gymraeg yn y Gwasanaeth ym mhob ffordd posib, gan gynnwys defnyddio ymadroddion Cymraeg yn ein sesiynau hyfforddi. Cyhoeddir ein holl gyfathrebiadau cyfryngol yn Gymraeg, ac rydym bob amser yn sicrhau nad ydym yn trin y Saesneg yn fwy ffafriol na'r Gymraeg




Llethr i sicrhau bod yr ystafell gymunedol yn gwbl hygyrch.

Uwchraddio ystafell gysgu.



Cyn



Wedyn



# Ein Diwylliant

**Amcan 3:** Gwreiddio diwylliant o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws GTADC.

**Fe wnawn ni hyn drwy:**

- Cynnal deialog barhaus ynghylch CAC
- Archwilio ffyrdd o hyrwyddo CAC yn y dyfodol. Gweithredu dull na fydd yn goddef gwahaniaethu, rhagfarn, aflonyddu a bwlio
- Herio ymddygiadau a geiriau nad ydynt yn cyd-fynd â safonau ymddygiad a gwerthoedd disgwyliedig ein Gwasanaeth na rhai Fframwaith Arwain Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (CCPT)
- Adolygu polisïau a gweithdrefnau'n barhaus i hyrwyddo diwylliant diogel, teg a chynhwysol lle mae cydweithwyr yn teimlo y gallant fod yn driw i'w hunain yn y gwaith a lle mae pob gweithiwr yn teimlo bod ganddyn nhw lais
- Cynnal rhwydweithiau sy'n hyrwyddo CAC ar draws y Gwasanaeth. Canolbwyntio ar arfer gorau a gynghorir gan Rwydwaith CAC CCPT

## Beth rydym wedi gweithio arno yn ystod 2023-2024:

- Cyhoeddwyd canfyddiadau'r adolygiad diwylliant annibynnol a gomisiynwyd gan GTADC. Ynghyd â hyn, fe wnaethom fapio holl argymhellion yr Adroddiad ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Cynllun Gweithredu Cynhwysol i sicrhau bod ein holl weithgarwch yn gyson ac yn gydlynol
- Fe wnaethom recriwtio ein Cyfarwyddwr Newid Strategol a Thrawsnewid i oruchwylio ac ysbrydoli ein taith newid diwylliant
- Cafodd diwrnodau ymwybyddiaeth CAC pwysig eu nodi a'u dathlu drwy gynnal ymgyrchoedd mewnol, yn ogystal â chyfleu ein safiad yn allanol ar y cyfryngau cymdeithasol. Ymhlith y rhain oedd ymgyrchoedd Mis Hanes Pobl Dduon, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod a Balchder
- Sicrhawyd hefyd bod y delweddau a ddefnyddiwyd yn ein hymgyrchoedd recriwtio yn adlewyrchu'r holl gymunedau rydym yn eu gwasanaethu gan sicrhau bod ymgeiswyr a gweithwyr amrywiol yn gweld eu bod yn cael eu cynrychioli o fewn y Gwasanaeth
- Fe wnaethom barhau i gefnogi a hyrwyddo ein rhwydweithiau amrywiaeth gan roi cyfle i'n staff drafod profiadau bywyd a thrafod taith ddiwylliannol y Gwasanaeth ill dau
- Cynhaliom ddigwyddiad Hydra 10KV ym mis Gorffennaf 2023, gan ddod â grŵp o unigolion a ddewiswyd ar hap o bob rhan o'r sefydliad at ei gilydd ar gyfer sesiwn yng Nghanolfan Hyfforddi Porth Caerdydd i roi adborth yn ddienw ar faterion brys. Canlyniad y fenter hon oedd cryfhau lleisiau grwpiau a dangynrychiolir yn ogystal â helpu i gyfleu teimladau cyfunol cymuned. Yn dilyn hyn, defnyddiwyd yr adborth hwn i lywio camau gweithredu i gynhyrchu canlyniadau diriaethol i wella cynwysoldeb y Gwasanaeth ar gyfer ein pobl

**Amcan 4:** Sicrhau bod pawb yn arwain drwy esiampl dda, drwy fod yn esiampl a hyrwyddo CAC ar draws GTADC.

**Fe wnawn ni hyn drwy:**

- Mewnosod Fframwaith Arweinyddiaeth CCPT
- Sicrhau bod yr Uwch Dîm Rheoli yn cael ei rymuso fel hyrwyddwyr amrywiaeth ac asiantau newid CAC
- Sicrhau bod uwch arweinwyr, rheolwyr a hyrwyddwyr yn amlwg iawn yn eu hymrwymiad i CAC
- Diffinio a sefydlu atebolrwydd arweinyddiaeth ar gyfer CAC ar bob lefel arweinyddiaeth
- Ymgorffori CAC yn ein rhaglenni hyfforddi a datblygu arweinyddiaeth, gan wella galluoedd arweinyddiaeth ar gyfer pob agwedd ar CAC
- Darparu'r sgiliau a'r adnoddau i bob arweinydd greu 'diwylliant parchus' ar draws y Gwasanaeth, a thrwy hynny gyfyngu ar ymddygiad 'gwyliwr'

### Beth rydym wedi gweithio arno yn ystod 2023-2024:

- Yn ystod y cyfnod hwn cwblhawyd cylch blwyddyn gyfan gyntaf yr Hyfforddiant Arwain a Datblygu ar gyfer Rheolwyr Goruchwyliol. Seilir cynnwys yr hyfforddiant datblygu hwn ar Fframwaith Arwain CCPT, sef lefel Arwain Eraill. Mae'r modiwlau'n cynnwys 4 maes fframwaith CCPT, h.y. Effaith Bersonol, Arweinyddiaeth Eithriadol, Cyflwyno Gwasanaethau ac Effeithiolrwydd Sefydliadol. O fewn yr holl fodiwlau hyn mae'r ffocws ar hyfforddi ein darpar reolwyr a'n rheolwyr cyfredol i fod yn arweinwyr cynhwysol
- Drwy law'r broses gynefino mae ein dechreuwyr newydd yn derbyn hyfforddiant CAC wyneb yn wyneb gydag e-ddysgu gorfodol i sicrhau bod ein holl staff wedi'u grymuso i arwain eu hunain ar holl faterion cynhwysiant
- Mae sesiynau rheolwyr canol wedi cynnwys trafodaethau sy'n canolbwyntio ar CAC a rhannu profiadau byw gan sicrhau bod ein rheolwyr yn asiantau newid CAC
- Roedd y Gronfa Dysgu Ychwanegol yn parhau i fod ar gael i'r holl staff gael mynediad at ddysgu allanol a fydd yn hybu eu datblygiad. Dyfarnwyd grantiau i ddigwyddiadau megis digwyddiad Rhwydweithio 'Merched yn y Gwasanaeth Tân', cynhadledd am roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a chynhadledd 'Cyflawni Cynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru'














# Ein Pobl

**Amcan 5:** Cynyddu amrywiaeth ein gweithlu ar bob lefel ar draws y Gwasanaeth.

**Fe wnawn ni hyn drwy:**

- Hyrwyddo GTADC fel cyflogwr gwirioneddol gynhwysol o ddewis, gan ymgorffori CAC yn ein holl weithgareddau wrth hyrwyddo gyrfaoedd o fewn GTADC
- Arddangos y strwythurau cefnogi amrywiol a'r buddion y gall y Gwasanaeth eu darparu i weithlu amrywiol ar bob lefel o fewn y Gwasanaeth
- Cael gwared ar rwystrau i recriwtio a dyrchafu i holl rolau'r Gwasanaeth trwy ddylunio prosesau a gweithgareddau denu, dethol a chadw yn effeithiol, wedi'i gefnogi gan Asesiad Integredig cadarn
- Cynllunio ymgyrchoedd cyfathrebu, cyfryngau ac atynnu cynhwysol sy'n adeiladu ar ddatblygu ymgysylltiad o fewn grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Bydd hyn yn cynnwys darparu digwyddiadau gweithredu cadarnhaol cynhwysol a chyson sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal
- Sicrhau gweithgareddau dethol ac asesu teg a thryloyw ar bob lefel ar draws y Gwasanaeth trwy ddarparu hyfforddiant recriwtio effeithiol, tuedd anymwybodol a hyfforddiant CAC
- Cefnogi unigolion o grwpiau nodweddion gwarchodedig i gael tegwch o ran cyfleoedd dyrchafiad i'r lefel nesaf e.e., hyfforddi a mentora ac ati.

## Beth rydym wedi gweithio arno yn ystod 2023-2024:

- Lansiwyd ymgyrch recriwtio diffoddwyr tân Llawn Amser gan annog ymgeiswyr amrywiol i wneud cais i ymuno â thîm GTADC. Gosodwyd hysbysfyrddau electronig yng Nghaerdydd a Chasnewydd i gynnwys y sawl heb fynediad dibynadwy i gysylltiad rhyngrwyd
- Rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2023, cynhaliodd ein hymgynghorwyr ffitrwydd ddeg sesiwn 'Ymarfer gyda'r Wylfa' i annog cymunedau i ymgysylltu â'r broses recriwtio. Roedd gan rai o'r sesiynau hyn adrannau ar gyfer merched yn unig i annog merched i ystyried gyrfa gyda GTADC a chefnogi eu dealltwriaeth o'r lefelau ffitrwydd gofynnol
- Yn yr un modd, cynhaliwyd sesiwn ffitrwydd diffoddwyr tân i fyfyrwyr coleg er mwyn rhoi rhagflas ar weithio yn y sector i bobl iau, gyda'r nod o recriwtio talent ifanc ac amrywiol i GTADC
- Mynychodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru Pride Cymru ym mis Mehefin 2023 gydag aelodau o staff, gwirfoddolwyr, teulu a ffrindiau yn gorymdeithio rhan yn yr orymdaith i ddathlu a chofleidio gwir gydraddoldeb ac amrywiaeth. Fe wnaethom hefyd ddosbarthu negeseuon recriwtio a diogelwch trwy law ein stondin farchnata yn y digwyddiad gan ein bod yn angerddol am wneud pawb o fewn ein cymunedau yn fwy diogel
- Fe wnaethom greu a chyflwyno hyfforddiant ar ragfarn anymwybodol ar gyfer yr holl weithwyr ar baneli cyfweld i sicrhau bod yr holl ymgeiswyr yn cael eu trin yn deg a chyfiawn yn ystod ein prosesau recriwtio
- Cynhaliom ddigwyddiad pwrpasol gyda grŵp Amanah L4K Cymru yng Ngorsaf y Rhath i bobl ifanc gael profiad o weithgareddau diffoddwyr tân wrth gynnwys negeseuon diogelwch cymunedol a recriwtio allweddol

**Amcan 6:** Sicrhau bod yr holl staff yn cael eu cefnogi gyda'r polisïau, offer a phrosesau cywir i sicrhau tegwch yn y gweithle.

**Fe wnawn ni hyn drwy:**

- Creu, ymgorffori, a chefnogi pob unigolyn gyda pholisïau a gweithdrefnau priodol sydd wedi cael Asesiadau Integredig
- Cydweithio ag arbenigwyr pwnc mewnol ac allanol i sicrhau arfer gorau wrth greu ac ymgorffori unrhyw weithgareddau a allai effeithio ar nodwedd warchodedig neu grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol
- Sicrhau bod ceisiadau am addasiadau rhesymol yn cael eu hasesu yn unol â gweithdrefnau'r Gwasanaeth gan ganolbwyntio ar yr unigolyn
- Sicrhau bod ein cynllun Niwroamrywiaeth a strwythurau cymorth yn eu lle ac yn cael eu hyrwyddo ar draws y Gwasanaeth
- Ymgorffori rhwydweithiau staff gyda ffocws ar degwch, cynwysoldeb, a lles o fewn y Gwasanaeth e.e., Grŵp Gweithlu Cynhwysol, hyrwyddwyr CAC a hyrwyddwyr Llesiant ac ati
- Sicrhau bod pob unigolyn yn cael pecyn dysgu cynhwysfawr am faterion CAC
- Sicrhau bod yr holl weithwyr yn cael Adolygiad Personol yn gyson er mwyn canolbwyntio ar eu lles, eu profiadau yn y gweithle a'u perfformiad yn ystod y flwyddyn
- Sicrhau bod gan bobl gyda nodweddion gwarchodedig gynlluniau gweithredu penodol i sicrhau bod eu profiadau yn y gweithle yn deg ac yn gynhwysol

**Beth rydym wedi gweithio arno yn ystod 2023-2024:**

- Fe wnaethom greu a chyflwyno gweithdrefn menopos yn ogystal ag asesiad risg menopos ategol i nodi problemau a rhoi unrhyw gymorth y gallai fod ei angen ar waith
- Gall gweithwyr gyfeirio eu hunain yn gyfrinachol i'n Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol am gefnogaeth mewn perthynas â'r menopos
- Cyflwyno'r Pecynnau Lles Glanweithdra ar y Safle ym mhob un o'n lleoliadau. Mae'r pecynnau hyn yn cynnwys amrywiaeth o gynhyrchion misglwyf, cadachau glanhau, newid dillad isaf (o faint amrywiol) i weithwyr
- Recriwtio Swyddog CAC i gefnogi ein mentrau CAC a darparu arweiniad i'r Gwasanaeth ar wella cynwysoldeb ei holl weithgaredd a diwylliant
- Gwnaethom waith i wella hygyrchedd ac adnoddau ar ein tudalen CAC fewnol i sicrhau bod ein pobl yn gallu cael gafael ar y wybodaeth orau i gefnogi ei gilydd yn y gweithle
- Cyflwynwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth niwroamrywiaeth i'n hyfforddwyr yng Nghanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd i sicrhau ein bod yn cefnogi ein holl weithwyr a recriwtiaid newydd yn llwyr o fewn amgylcheddau dysgu
- Parhawyd i ddarparu mynediad i hyfforddiant ar-lein ar bynciau cynhwysiant. Cwblhaodd 71% o'r gweithwyr y modiwl iaith cynhwysol, cwblhaodd 78% o'r gweithwyr yr hyfforddiant ar ragfarn anymwybodol a chyflawnodd 57% o reolwyr y pecyn arweinyddiaeth gynhwysol. Cyflawnodd 614 o weithwyr yr hyfforddiant 'Menopos yn y Gweithle' o'u gwirfodd
- Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi sefydlu ein cefnogaeth i niwroamrywiaeth ymhellach drwy roi cyhoeddusrwydd i'n hasesiad niwroamrywiaeth wedi'i deilwra a'n llwybr addasiadau rhesymol. Mynychodd ein tîm CAC lawer o leoliadau GTADC i ddarparu cefnogaeth a hybu ymwybyddiaeth o'r cynllun

# Datganiad Cyswllt

Fel gwasanaeth cyhoeddus rydym yn falch o wasanaethu ein cymunedau amrywiol yng Nghymru ac rydym yn eich annog i roi gwybod i ni sut y gallwn barhau i ddiwallu eich anghenion.

Os hoffech ymgysylltu â ni ynghylch unrhyw agwedd ar yr adolygiad hwn neu dderbyn y wybodaeth hon mewn fformat neu iaith arall, mae croeso i chi gysylltu â ni: cynhwysiant@decymru-tan.gov.uk

**Arweinydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru,
Parc Busnes Forest View
Llantrisant CF72 8LX.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg – byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddau ac yn ateb yn eich dewis iaith yn ddi-oed.

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

## Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

**Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru,
Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX.

Dilynwch ni:

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan y Cyfryngau a Chyfathrebu ©2025 | Rh/G MC000657